**Julie James AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**
**Deputy Minister for Skills and Technology**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/HL/1232/15

William Graham AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Ebrill 2015

Annwyl William,

**CYNLLUN CYFLAWNI 'STEM' MEWN ADDYSG**

Cyfeiriaf at ein gohebiaeth flaenorol parthed datblygu Cynllun Cyflawni STEM mewn Addysg, yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch sgiliau STEM y llynedd.

Rwy'n falch o allu amgáu fersiwn drafft o'r Cynllun er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried. Cafodd ei ddatblygu, ar y cyd, gan swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau a swyddogion Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Y nod yw ei fod yn cynnwys yr ystod gyfan o weithgarwch addysg STEM, sy'n gwneud y Cynllun yn un eang, gan adlewyrchu ymchwiliad y Pwyllgor.

Byddwch yn ymwybodol bod meysydd allweddol o fusnes, sy'n effeithio ar ein gwaith i ddatblygu sgiliau STEM yng Nghymru ac, o ganlyniad, ar gynnwys fersiwn terfynol y Cynllun hwn, yn symud ymlaen yn gyflym. Er enghraifft, bydd penderfyniadau ar fwrw ymlaen â *Dyfodol Llwyddiannus* a'r adolygiad strategol o'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn cael eu gwneud dros y misoedd i ddod. Mae'r fersiwn atodedig o'r cynllun yn cynnwys, felly, nodiadau drafftio i dynnu sylw at adrannau penodol a fydd yn siŵr o gael eu diwygio yn sgil y penderfyniadau hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Julie.James@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Gan fod angen cynnwys y penderfyniadau pwysig hyn gan y Llywodraeth, yn ogystal â barn y Pwyllgor, yn nod yw cyhoeddi'r fersiwn terfynol o'r Cynllun ym mis Medi. Edrychaf ymlaen at dderbyn sylwadau'r Pwyllgor yn y man.

Yn gywir

**Julie James AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Deputy Minister for Skills and Technology